

Planned Chwarae

Llyfr 3



sports council wales
cyngor chwaraeon cymru

Ariennir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by
Welsh Assembly Government



Play to
Learn
Chwarae
i Ddysgu






chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

Her
Iechyd
Cymru Health
Challenge
Wales

Mae'r llyfr hwn yn rhan o'r adnodd 'Chwarae i Ddysgu' sydd wedi'i ysgrifennu i hybu gwaith cyflwyno Datblygiad Corfforol a Symud Creadigol yn y Cyfnod Sylfaen.

Nod y gyfres o lyfrau yw cymell plant i wneud gweithgareddau corfforol a dod yn fwy medrus. Tynnir sylw at ystod o sgiliau corfforol trwy'r straeon drwyddi draw er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad.



Mae Llyfr 3 – Planed Chwarae yn datblygu'r sgiliau canlynol:

Symud

Rhedeg, Neidio a Glanio, Carlamu

Rheoli'r Corff

Gwthio Gurthrych, Tynnu Gurthrych, Rhagwthio, Ochrgamu

Trafod a Thrin

Cicio Pêl, Taflu â Dwy Law, Bownsio Pêl, Taflu dros Ysgwydd, Driblo â'r Traed, Driblo â'r Dwylo, Trapio â'r Traed, Taro Gurthrych â'r Dwylo neu Fat

Unwaith y byddwch chi wedi darllen y llyfr hwn, rydym yn gobeithio y byddwch chi'n helpu plant i archwilio symudiadau posibl mewn straeon eraill.

Diolchiadau

Ysgrifennwyd gan:

Jan Gadd

Sheila Meadows

Nia Richards a Sharne Watkins (Ysgol Addysg Caerdydd, UWIC)

ar y cyd â Chyngor Chwaraeon Cymru

Rheolwyd y prosiect a gwnaethpwyd y gwaith cyfarwyddo creadigol, dylunio a chynhyrchu gan:

Brand/68, www.brand68.com. Darluniau gan Simon Bradbury

Cyfieithwyd gan:

Cyfaith, ar y cyd â Nia Richards (Ysgol Addysg Caerdydd, UWIC)

© Hawlfraint (Llywodraeth Cynulliad Cymru) 2009. Cedwir pob hawl.

Ni ellir atgynhyrchu unrhyw rannau o'r adnodd hwn, ac ni ellir eu storio mewn system adfer na'u trosglwyddo ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw fodd - boed yn electronig neu'n beiriannol, wedi'u llungopio, eu recordio neu fel arall - heb gael caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Planned Chwarae

Llyfr 3



“Rwy’n mynd i chwarae dros Gymru,”
cyhoeddodd Gethin.

“Rwyf ti’n llawn mor ddwl am rygbi â Dad,”
chwarddodd Tom wrth iddyn nhw redeg allan
o’r tŷ ac i waelod yr ardd i chwilio am bêl.

Wrth iddyn nhw redeg, roedden nhw’n esgus
pasio pêl rygbi at ei gilydd, gan ragwthio ac
ochrgamu wrth symud o un pen yr ardd i’r llall.



Stopiodd Gethin, ac esgus **cicio'n** araf.
Gallai weld y bêl yn ei ddychymyg wrth
iddi hedfan yn syth rhwng y pyst.

“Diolch byth nad oeddet ti'n **cicio** pêl go
iawn,” chwarddodd Tom. “Byddai honna
wedi mynd trwy ffenest Mrs Befan.”



Gan nad oedden nhw'n gallu dod o hyd i'r bêl rygbi, penderfynodd y bechgyn orffen y cuddfan roedden nhw wedi dechrau ei adeiladu'r wythnos flaenorol. Gwibiodd y ddau yn ôl i waelod yr ardd, gan **neidio** dros y domen gompost er mwyn casglu'r pren a'r cardbord yr oedd Dad wedi'u cadw ar eu cyfer.

“Beth am adeiladu llong ofod,” awgrymodd Tom.

“Gallen ni hedfan i Blaned Rygbi,” meddai Gethin, ond doedd Tom ddim yn rhy hoff o'r syniad.

“Na! Planed Pêl-droed!” dadleuodd Tom.

Yn y diwedd, penderfynodd y ddau y byddai'r llong ofod yn cael ei henwi'n Apolo 3-2-7, a'r lle cyntaf y byddai'n hedfan iddo fyddai Planed Chwarae!



Gweithion nhw'n galed ar y llong ofod, a gyda help ychydig o ffoil o'r gegin, roedden nhw bron â bod yn barod i gychwyn.

"Oes olwyn lywio gan longau gofod?" gofynnodd Tom.

"Byddai'n syniad da," meddai Gethin.

"Oes un 'da ti?"



Wrth i Tom edrych allan o'r cuddfan gwelodd Megan yn **carlamu** i fyny llwybr yr ardd ar ei cheffyl pren.

“Megan,” galwodd Tom, “wnei di fynd i nôl yr olwyn beic rhoddodd Tad-cu i ni?”

“Dim ond os galla’ i chwarae yn eich cuddfan chi,” meddai Megan.

“Iawn,” cytunodd y bechgyn. “Dere â’r olwyn a bocs arall.”



Wrth iddyn nhw aros am Megan, gwnaeth y bechgyn yn siŵr fod paneli rheoli'r llong ofod yn hollol barod.

“Mae'n edrych yn anhygoel!” ochneidiodd Gethin wrth iddo bwysu'n ôl yng nghadair y capten. “R'yn ni'n barod i lansio, Capten Tom.” Chwarddodd y ddau a dechrau cyfrif i lawr.




10... 9... 8... 7... 6... 5...

Dechreuodd y llong ysgwyd a chrynu. Roedd y llawr yn troelli fel corwynt a WHWWSH! cawson nhw eu sugno i'r gofod.



CRASH! Stopiodd y troelli'n sydyn gan wneud i'r bechgyn gwympto allan o'u cadeiriau. Wrth iddyn nhw godi gwelson nhw gae'n ymestyn o'u blaen. Rywsut, roedd y ddau'n gwisgo cit pêl-droed ac roedden nhw'n gallu clywed torf yn bloeddio.

Roedd pêl yn dod tuag atyn nhw. Heb feddwl, trapiodd Gethin y bêl â'i droed a'i phasio at Tom. Driblodd Tom y bêl i lawr y cae yn chwim. Rheolodd y bêl cyn troi, anelu a'i chicio at y gôl.



“GÔL!”

Gallai'r bechgyn glywed y dorf yn gweiddi, ond wrth iddyn nhw edrych o'u cumpas gwelsoŋ nhw eu bod yn ôl yn y llong ofod ac yn symud unwaith eto.

“Waw, roedd hwnna'n wych!” gwaeddodd Tom dros sŵn yr injan yn rhuo.



Unwaith eto, stopiodd y llong ofod mor gyflym ag yr oedd wedi dechrau. Y tro hwn, wrth i'r bechgyn gamu allan ohoni, gwelsoedd nhw creaduriaid o bob lliw a llun yn chwarae gêm ryfedd iawn.

“Beth maen nhw'n chwarae?” gofynnodd Gethin.

“Does dim syniad 'da fi,” atebodd Tom, “ond dwi'n credu eu bod nhw'n ceisio cael y peli i mewn i'r basgedi 'na. Dyna hwyl! Dere mlân!”

Ymunodd y ddau yn y gêm wrth i'r creaduriaid basio'r bêl. Weithiau, roedden nhw'n **bounsio'r** bêl, dro arall roedden nhw'n ei **chicio**. Weithiau, roedden nhw'n **taflu'r** bêl, dro arall roedden nhw'n ei **driblo**. Ac weithiau roedden nhw'n sgorio yn y basgedi.



Yn sydyn, hedfanodd pêl i gyfeiriad Gethin, ac roedd dau o'r creaduriaid mwyaf a welodd erioed yn ei dilyn. Cydiodd Gethin yn y bêl yn ddewr mewn dwy law ac anelu'n ofalus. Hedfanodd y bêl i'r awyr a disgyn i'r fasged agosaf.

“Ergyd wych!” gwaeddodd rhywun.



Roedd Gethin wrth ei fodd â'i ergyd, ond chafodd fawr o amser i ddatlu gan fod goleuadau'r panel rheoli wedi dechrau fflachio, ac wrth i'r injans suo a sunian roedden nhw ar eu ffordd eto, yn troelli a chwyrlio ac yn chwyrlio a throelli yn ôl trwy'r gofod.



I ble'r oedden nhw'n mynd? Ble bydden nhw'n glanio?

"Hei Gethin," gwaeddodd Tom. "Ble'r wyt ti'n meddwl y byddwn ni'n glanio nesaf?"

"Dim syniad," atebodd Gethin wrth iddo ddal yn dynn yn ei gadair. "Dylen ni fod wedi aros i Megan a'r olwyn lywio cyn i'r llong yma benderfynu hedfan i ffwrdd!"



“Help!”..... “Tom!”

Edrychodd y bechgyn ar ei gilydd.

“Megan!” gwaeddodd y ddau gyda’i gilydd.

Yn sydyn, roedden nhw’n troelli eto, round a round a round. CHWAP! Yn ôl ar y ddaear! Rhedodd y bechgyn allan o’r cuddfan.





Roedd Megan yn **tynnu** a **guthio** ac yn **guthio** a **thynnu** wrth iddi stryffaglu i **wthio'r** pram i fyny'r llwybr â'r olwyn fawr drom ar ei ben.

“Mae'n rhaid i chi fy helpu i â hwn,” meddai Megan yn grac. “Ble r'ych chi wedi bod? Dwi wedi bod yn galw amdanoch ers amser.”

Edrychodd y bechgyn ar ei gilydd. Roedd eu hwynebau'n goch biws, ac roedden nhw'n chwysu ac yn puffedian â'u gwynt yn eu dwrn.

“O, dim ond gwneud yn siŵr bod y cuddfan yn hollol barod,” dywedodd Tom gan wincio ar Gethin. Fyddai Megan byth yn eu credu pe bydden nhw'n dweud wrthi.

Gweithiodd y tri phlentyn gyda'i gilydd i gael y pram i fyny'r grisiau. **Tynnodd Tom, guthiodd Gethin, a gafaelodd Megan yn yr olwyn er mwyn gwneud yn siŵr nad oedd yn cwmpo.**



Gyda'i gilydd, llwyddodd y tri i roi'r olwyn lywio yn ei lle yn y llong ofod o'r diwedd.

“Mae Tad-cu yma!” galwodd Mam.

“Pwy sydd am chwarae ‘Tipio a Rhedeg’ yn y parc?” gofynnodd Tad-cu.

Edrychodd Gethin a Tom ar ei gilydd. A ddylen nhw fynd gyda Tad-cu neu fynd yn ôl i mewn i'w llong ofod?

“Roedd hi'n antur anhygoel,” meddai Tom, “ond dwi ddim yn barod am antur arall eto. Beth amdanat ti?”

“Na finne chwaith,” meddai Gethin gan roi ei fys ar ei wefusau. Roedd e am gadw eu hantur yn gyfrinach.

“Iawn Tad-cu. Fi sy'n batio gyntaf!” meddai Tom.

“Na, fi!” gwaeddodd Megan wrth iddi redeg yn ei blaen.



Wrth i'r plant adael yr ardd, taflodd y bechgyn un cipolwg arall ar eu llong ofod ryfeddol, cyn brysio i ffurdd i chwarae.





